# Monitro a chynnal pysgod ifanc mewn deorfa

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro a chynnal pysgod ifanc mewn deorfa ac mae'n cynnwys yr holl weithgareddau sydd yn gysylltiedig â gofalu am y pysgod. Mae'n gofyn bod gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn monitro a chynnal pysgod ifanc mewn deorfa.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. cynnal amodau amgylcheddol o fewn unedau cadw'r ddeorfa
3. arsylwi ac adrodd am y broses ddeor
4. monitro ac adrodd ar dymheredd dŵr mewn unedau cadw deorfa
5. bwydo pysgod ifanc mewn ymateb i arwyddion sydd yn dangos eu bod yn barod i gael eu bwydo am y tro cyntaf
6. monitro a chynnal iechyd a lles pysgod ifanc
7. symud pysgod marw a malurion o unedau cadw, gan amharu cyn lleied â phosibl ar y pysgod sydd ar ôl
8. darparu gwybodaeth er mwyn cadw cofnodion
9. gweithgareddau deorfa yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â gwaith deorfa bysgod
2. yr arwyddion sydd yn dangos parodrwydd i gael eu bwydo am y tro cyntaf
3. y gofynion bwydo ar gyfer stoc o bysgod ifanc
4. gweithdrefnau'r safle ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch effeithiol mewn deorfa
5. problemau iechyd ac anhwylderau cyffredin sydd yn gysylltiedig â deorfeydd, a'r arwyddion sydd yn dangos eu presenoldeb
6. pwysigrwydd cynnal iechyd a lles pysgod
7. rheolyddion cyfreithiol perthnasol ar weinyddu triniaethau
8. pwysigrwydd symud stoc marw ac sy'n marw o ddeorfeydd
9. y gofynion cyfreithiol perthnasol sydd yn rheoli gwaredu marwolaethau a gwastraff
10. argyfyngau deorfa a'r gweithdrefnau i'w dilyn os yw argyfwng yn cael ei nodi
11. y gofynion cyfreithiol a gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion o weithgareddau deorfa

Monitro a chynnal pysgod ifanc mewn deorfa

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu18 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; ifanc; deorfa |